"Perfformiad oedd yn ysbrydoli'r plant i ddefnyddio eu dychymyg a datblygu eu sgiliau mewn ffordd ddiddorol" – **Ysgol Brynaman School**

cwmni theatr arad goch

# Ble Mae'r Dail Yn Hedfan

# Where the Leaves Blow



"Great use of natural resources from the environment – good to expose children to explore and use objects to stimulate imagination." – **Ysgol Hakin School**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


# Perfformiad theatr rhyngweithiol i blant 2-8oed a theuluoedd

Mae'r cynhyrchiad yn antur gerddorol, yn rhyfeddol ac mae'n ddoniol! Wrth weld y brigau'n canu, y mwsogl yn dawnsio a'r dail yn cweryla bydd y plant yn ysu i ymuno ac yn gadael y perfformiad yn llawn syniadau ac yn barod i chwilota yn yr ardd!

# An interactive theatre performance for children aged 2-8 and families

This is a musical and magical adventure and it's funny! With singing twigs, dancing moss and leaves that quarrel, children will relish the opportunity to join in, before leaving the performance full of ideas and raring to explore the garden!





**Edrychwch bawb – mae rhywun tu allan. Mae hi'n chwilio am rywbeth... "Helo. Rydw i'n casglu pethau. Pethau natur. Rydw i'n casglu dail a brigau a choed. Pethau prydferth. Wnewch chi fy helpu?"**

**Look, everyone – there's someone outside. She's looking for something. "Hello I'm collecting things, leaves and twigs, will you help me?"**

## Y Cynhyrchiad

BLE MAE'R DAIL YN HEDFAN yw ail gynhyrchiad rhyngweithiol arbenigol Arad Goch i blant bach 2 - 8 oed sy'n defnyddio pethau natur fel rhan bwysig o'r weithgaredd. Crëwyd y sioe gan Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Arad Goch a'r actores Ffion Wyn Bowen.
Mae'r cynhyrchiad yn addas i theatrau, neuaddau cymunedol ac ysgolion ac mae'r perfformiad yn digwydd y tu allan, mewn maes chwarae, parc neu goedwig a'r tu fewn. Os nad oes gofod tu allan gellir perfformio'r cyfan tu mewn.

## The Production

WHERE THE LEAVES BLOW is Arad Goch's second interactive production for small children aged 2 - 8 using natural resources as a focus for the performance. The performance was developed by Arad Goch's Artistic Director Jeremy Turner and actress Ffion Wyn Bowen. The production is suitable for theatres, community venues and schools and is performed in an outside space such as a playground, park or forest and also inside. The performance can be performed inside if there is no suitable outside space.



## Sgiliau/ Skills

Emosiynol: mae'r cymeriadau yn arddangos nifer o emosiynau gwahanol wrth fynd ati i greu straeon a sefyllfaoedd – syndod, hapusrwydd, gwrthod, cynorthwyo, dychryn, cyffro, sbeit, cymodi, gofalu - deall ei gilydd. Mae rhain fel drych o brofiadau'r gynulleidfa ac fe'u defnyddir i helpu'r plant bach i ddeall eu hemosiynau'u hunain ac i ddygymod â nhw.

Emotions: the characters display an array of emotions as they create new stories and scenes – shock, happiness, unwillingness, helpfulness, fear, excitement, spitefulness, making up, caring and understanding each other. These emotions help the children to understand their own emotions and to deal with them.

**"In a short time the children had been inspired to create wonderful art-work which has then inspired me to collect similar natural objects ready for the outside area"**
**Ysgol Llanfyllin School**

**"Cafwyd amser gwych yn creu delweddau a'r cyfle i fod yn greadigol ar y set"**
**Ysgol Aberteifi School**





Cerddoriaeth: mae'r gynulleidfa yn cael cyfle i brofi cerddoriaeth fyw a chwaraeir gan y cymeriadau ar acordeon a phib. Mae'r plant yn cael ymuno yn y canu ac mae modd iddynt ychwanegu geiriau newydd.
Music: the audience experiences live music as the characters play the accordion and whistle. The children are encouraged to sing and create their own words.

Celf: mae'r perfformiad yn dangos sut y gellir defnyddio deunyddiau naturiol i greu patrymau, siapiau a delweddau
Art: the performance demonstrates how to create patterns, images and shapes by the use of natural objects.





# Sgiliau/ Skills

Rhifedd a Gwyddoniaeth: defnyddio brigau i greu patrymau, creu rhythmau gyda choed a cherrig, ystyried cyflymdra gyda'r car a wneir o froc mor, gweld cydbwysedd gwrthrychau wrth adeiladu.
Numeracy and Science: using twigs to create geometric patterns, creating music and rhythms with pieces of wood and stones, consider speed with a car made from drift wood, balancing objects as they are used to build part of the story.

Llafar: wrth gael eu gwahodd i gynnig syniadau a sylwadau mae'r plant yn cael cyfle i ymarfer sgiliau llafar. Bydd eu sgwrs yn parhau yn hir ar ôl y perfformiad.
Speech: the audience/children are encouraged to share ideas and comments with the characters. The conversation will continue long after the performance





**"We don't need to go out and buy toys anymore, just go out and collect bits of wood and leaves"**
**Rhiant /Parent, Ffrindiau Bach yr Eos**



**“Braf oedd gweld y plant eisiau parhau gyda’r gweithgareddau ar ôl y perfformiad”**
**Ysgol Penrhyncoch School**

**“Excellent development of imaginative skills. All pupils were engaged from the outset”**
**Ysgol y Felin School**

Creadigol: mae’r holl gyflwyniad yn annog y gynulleidfa i gymryd rhan yn greadigol – ac i fynd ati i ddefnyddio deunyddiau naturiol i greu straeon a chymeriadau newydd.
Creative: the production encourages the children to take part and use their imaginations – and also to create new stories and characters as they interact with the natural objects

Dylunio/Design: www.rhyshuws.com

“The children learnt the importance of sharing and the fact that everyone is different. Fantastic!”
**Ysgol Llanfyllin School**

# Manylion/Details

Oed/ Age: 2 – 8
Maint Cynulleidfa/ Audience Capacity: 70
Iaith/ Language: Cymraeg neu Saeneg/ English or Welsh
Gwagle/ Space: Yn ddelfrydol gofod tu allan e.e. parc neu goedwig neu fuarth a gofod tu mewn 6 x 6 m/ Ideally an outside space such as a park or forestry or yard and an inside space 6 x 6 m
Hyd y Perfformiad/ Duration: 50m
Gosod a Chlirio/ Get in and Get out: 90 munud i osod a awr i glirio/
90 minutes to set up, hour to strike

**I ARCHEBU/ TO BOOK:**
post@aradgoch.org / 01970 617 998

Arad Goch was established in Aberystwyth, Mid Wales in 1989 and prides itself on creating exciting and contemporary theatre and multimedia projects for children, young people and families in Wales and abroad. We also organise AGOR DRYSAU – OPENING DOORS, Wales International Performing Arts Festival for Young Audiences.
www.aradgoch.org



“Roedd y perfformiad yn llawn syrpreis a digon i ddal sylw y plant. Syniad go arbennig a’r stori’n datblygu mor naturiol. Cymeriadau ardderchog yn apelio at y plant ac yn hyblyg iawn i’w gofynion.”
**Ysgol Dafydd Llwyd School**

“Perfformiad yn ysbrydoli’r plant – ni moyn hala mwy o amser yn y goedwig nawr!”
**Ysgol Llanon School**